Braslun o Hanes Clwb Badminton Tal-y-bont

Mae'r flwyddyn 2000 yn nodi pen-blwydd Clwb Badminton Tal-y-bont yn 35 oed. Yn ystod Hydref 1965 cafodd nifer o bentrefwyr brwdfrydig ganiatâd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd Goffa i osod cwrt yn y Neuadd. Cafwyd rhwyd, racedi a gwenoliaid ac felly rhoddwyd y cyfle i fwynhau'r gem i unrhyw un a deimlai fel chwarae badminton ar nos Fawrth.

Daeth y gêm yn fwyfwy poblogaidd a naw mlynedd yn ddiweddarach marciwyd cwrt ymarfer arall, llai o faint. Mor fuan â 1968 gwelwyd angen am Glwb Iau ac mae wedi parhau ers hynny, gydag oedolion sydd yn aelodau yn arolygu ac yn hyfforddi'r ifanc.

Ar y dechrau y tâl oedd 5/– (pum swllt) y flwyddyn a 1/– (swllt) bob nos yr oedd aelod yn chwarae. Pan ddaeth arian degol roedd y

A Short History of Tal-y-bont Badminton Club

The year 2000 marks the 35th anniversary of the formation of Tal-y-bont Badminton Club. In the autumn of 1965 several enthusiastic villagers obtained permission from the Memorial Hall Management Committee for a court in the Hall. A net, rackets and shuttles were obtained and so began an enjoyable sport for anyone who felt inclined to play badminton on Tuesday evenings.

The popularity of the game increased and nine years later another smaller practice-court was marked out. The need for a Junior Club arose as early as 1968 and this has continued since then, with adult members supervising and coaching the youngsters.

Initially, subscriptions were 5/– (five shillings) annually and 1/– (one shilling) on

Y Clwb Iau, 1992. Y rhes gefn o'r chwith: Robin Cox, Deri Roberts, Joe Cairnes, Kelly Green, Rhys ap Iolo, Leonard Tedd; Yn y blaen: Emma Evans, Tom Cairnes, Alex Smith.

The Junior Club, 1992. The back row from the left: Robin Cox, Deri Roberts, Joe Cairnes, Kelly Green, Rhys ap Iolo, Leonard Tedd; In front: Emma Evans, Tom Cairnes, Alex Smith.

tâl wedi codi i 30/– (deg swllt ar hugain) gyda'r chwaraewyr iau yn talu 6d (chwe cheiniog) i chwarae. Deng mlynedd yn ddiweddarach roedd y tâl wedi codi i £5 y flwyddyn a 10c i chwarae, 50c yn awr. Roedd chwaraewyr iau yn talu 5c y pryd hynny ac erbyn heddiw maent ond yn talu 20c.

Pan ffurfiwyd Cynghrair Badminton Canolbarth Cymru ym 1977 cafwyd tîm o chwe chwaraewr – tri dyn a thair merch- yn cystadlu bob blwyddyn gyda llwyddiant yn amrywio. Roedd y chwaraewyr yn ennill profiad gwerthfawr ac yn gwella eu sgiliau, ac yn ystod tymor 1992–93 roeddent yn bencampwyr y cynghrair. Cafodd rhai o chwaraewyr ieuengaf y tîm hefyd le yn Nhîm Sir Ceredigion, a oedd yn foddhaol iawn i'r Clwb gan iddynt chwarae yn flaenorol yn Nhal-y-bont fel chwaraewyr iau.

Cynhelir twrnamaint blynyddol ar gyfer chwaraewyr iau lleol rhwng 11–18 oed yn Ysgol Penglais bob tymor a thros y blynyddoedd, bu chwaraewyr iau Tal-y-bont yn cystadlu. Mae nifer wedi dychwelyd gyda thlysau haeddiannol i gofnodi eu llwyddiant. Cynhaliwyd cystadlaethau cyfeillgar yn erbyn timau lleol eraill ar lefel iau a hŷn.

Ym mlwyddyn gyntaf y 21ain ganrif, chwaraeir badminton bob nos Fawrth; mae aelodau yn mynd ac yn dod, bu rhai yn chwarae am flynyddoedd lawer, ac mae eraill yn mwynhau'r gem pan fydd ganddynt yr amser a'r ynni. Efallai y bydd nifer sydd yn darllen hwn ac sydd yn parhau i chwarae, neu sydd wedi chwarae yn y gorffennol, yn cofio'r mwynhad a'r awyrgylch gymdeithasol a geir wrth gystadlu'n gyfeillgar mewn gemau badminton yn Neuadd y Pentref.

Juliet Trudgill

each evening that a member played. By the year of decimalisation subscriptions had risen to 30/– (thirty shillings) and juniors paid 6d (sixpence) to play. Ten years later fees rose to £5 annually and 10p to play, now 50p. Juniors paid 5p then and currently pay only 20p.

When the Mid-Wales Badminton League was formed in 1977 a team of six players – three men and three women- entered every season with varying success. Players gained valuable experience and improved their skills, and in the season of 1992–93 they became league champions. Some of the younger team players also secured places in the Ceredigion County Team, which was extremely satisfying to the Club as they had previously played in Tal-y-bont as juniors.

An annual tournament for local juniors aged 11–18 years is held at Penglais School every season and, over the years, Tal-y-bont juniors have entered. Many have brought home well-deserved trophies as records of their success. Friendly matches have often been played against other local teams both at junior and senior level.

In this first year of the 21st century, badminton is still played every Tuesday evening; members come and go, some have been playing for many years, others enjoy the sport whenever they can find the time and the energy. Perhaps many readers of this who still play, or have played in the past, will remember the enjoyment and social atmosphere to be found in the friendly competition of a few games of badminton in the Village Hall.

Juliet Trudgill